***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1724 (Cy.165)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) (Dirymu) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *30 Mehefin 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Gorffennaf 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *25 Gorffennaf 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 13, 56(1), 60 a 61(5) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) (Dirymu) 2010 a deuant i rym ar 25 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dirymu**

**2.** Dirymir Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010(**2**).

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

30 Mehefin 2010

(**1**) 2006 p.47.
(**2**) O.S. 2010/1291 (Cy.110).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ("Deddf 2006") yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i gynllun fetio a gwahardd newydd ar gyfer y bobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion hyglwyf. Mae adran 13 o Ddeddf 2006 yn gwneud yn ofynnol bod gwiriad yn cael ei gynnal ar unrhyw berson a benodir i gorff llywodraethu sefydliad addysgol. Mae Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (Cyfnod Rhagnodedig a Swyddog Priodol) (Cymru) 2010 ("rheoliadau 2010") yn rhagnodi, at ddibenion adran 13, y cyfnod y bydd yn rhaid cyflawni'r gwiriad ynddo, a'r swyddog priodol a fydd yn gyfrifol am gyflawni'r gwiriad.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal adolygiad o'r cynllun fetio a gwahardd. O ganlyniad i'r adolygiad hwnnw, ni fydd adran 13 o Ddeddf 2006 yn cael ei chychwyn yn llawn ar 26 Gorffennaf 2010. O ganlyniad, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu rheoliadau 2010 cyn iddynt ddod i rym ar 26 Gorffennaf 2010.